



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ffermio Bro – Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig

Canllaw Sut i Lenwi

© Hawlfraint y Goron.

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

ISBN: 978-1-83715-277-3

Ffermio Bro – Canllaw Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig

Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn rhoi cymorth cam wrth gam ichi i lenwi ffurflen gais lawn Ffermio Bro - Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r canllaw yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn unol â'i Chynllun Iaith Gymraeg.

Os ydych yn cael trafferthion neu os nad ydych yn gallu cysylltu â'n gwefan, ffoniwch Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Cynnwys

Cofrestru ar gyfer RPW Ar-lein

Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – tudalen Hafan	3
Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Tudalen Ffurflenni	5
Ffermio Bro – Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig – Dechrau arni	7
Ffermio Bro – Cyflwyniad a thudalen hysbysiad preifatrwydd	8
Ffermio Bro – Parhau â'r Cais/Dechrau Eto	10
Ffermio Bro – Manylion Rheoli Rhaglen	12
Ffermio Bro – Manylion y Cyd-destun Strategol	12
Ffermio Bro – Ymgorffori manylion bioamrywiaeth	14
Ffermio Bro – Gwerth am Arian	14
Ffermio Bro – Uchafswm Gwerth y Grant	15
Ffermio Bro – Cyflwyno, Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb	15
Ffermio Bro – Datganiad ac Ymrwymadau	16
Ffermio Bro – Tudalen Gyflwyno - Cyflwyno	17
Ar ôl Cyflwyno'r Ffurflen yn Llwyddiannus	17

Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – tudalen Hafan

I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, mae angen ichi gwblhau'r [ffurflen gofrestru ar-lein](#). Edrychwch ar y [canllawiau sut i gofrestru](#) am fanylion pellach. Mae modd gwneud y rhan fwyaf o newidiadau i fanylion busnes ar-lein. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o wybodaeth ar Lywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau arwyddocaol. Cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid am ragor o wybodaeth.

Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein

Tudalen Fewngofnodi Porth y Llywodraeth

Mewngofnodwch i'ch Cyfrif RPW Ar-lein – rhowch eich ID Defnyddiwr a'ch Cyfrinair Porth y Llywodraeth yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.



Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein

Tudalen One Login

Os ydych chi'n defnyddio One Login i gael mynediad i'ch Cyfrif RPW Ar-lein, byddwch yn gyntaf wedi dilyn y camau i fudo i One Login a bydd y manylion canlynol gennych yn barod i fewngofnodi i'ch cyfrif 'One Login'.

Rhowch y cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd wrth greu eich cyfrif 'One Login' a dewiswch **'Parhau'**.



Yna bydd angen i chi roi eich cyfrinair unigryw, cofiadwy yn y blwch a dewis 'Parhau'.

[English](#) | [Cymraeg](#)

[< Yn ôl](#)

Rhowch eich cyfrinair

<input type="password" value="....."/>	Dangos
--	------------------------

[Parhau](#)

[Rwyf wedi anghofio fy nghyfrinair](#)

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004

[Yn ôl at y Cynnwys](#)

Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Tudalen Ffurflenni

Pan fyddwch wedi mewngofnodi yn eich cyfrif ar-lein, fe welwch dudalen 'Hafan' RPW Ar-lein.

Yn yr adran **Dechrau Ffurflen** ar waelod y sgrin 'Hafan', rhestrir y cynlluniau sydd ar agor ar gyfer ceisiadau.

The screenshot shows the RPW Ar-Lein Online website interface. At the top, there is a green header with the RPW logo and 'Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales'. Below the header, there is a navigation menu with 'Hafan', 'Manylion y CRN', 'Tir', 'Gohebiaeth', 'Ffurflenni', 'Contractau a Grantiau Bach', and 'Cynlluniau Coetir'. A yellow banner contains a message about logging in. Below that, there are two blue banners: one about the deadline for submitting 2024 SFS data and another about the 2025 SAF deadline. The main content area is titled 'Negeseuon Rhyngoch chi ag RPW' and includes a section for 'Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru / Documents received by RPW'. A search box is present, and a list of 'Dechrau ffurflen' (Start applications) is shown, with 'Ffermio Bro Ar gael hyd at 28/03/2025. 36 diwrnod ar ôl.' highlighted in a red box. On the right, there is a sidebar with information about the 2025 SAF deadline and a 'Dechrau SAF 2025' button.

Yn yr adran 'Dechrau Ffurflen' a ddangosir uchod bydd angen i chi ddewis '**Ffermio Bro**'.

Neu, gallwch glicio ar y tab '**Ffurflenni**' ar dudalen hafan RPW Ar-lein, fel y dangosir isod:

This screenshot shows the top navigation menu of the RPW Ar-Lein Online website. The 'Ffurflenni' tab is highlighted with a red box, indicating it is the selected section.


I newid yr iaith unrhyw adeg, cliciwch ar y botwm '**English**' ar gornel dde ucha'r sgrin. Bydd y botwm hwn yn gadael i chi newid iaith eich Ffurflen Gais .

I lywio drwy'r ffurflen y tu hwnt i'r pwynt hwn, bydd botymau 'Blaenorol' 'Cadw' a 'Nesaf' ar frig a gwaelod y dudalen. Sylwch fod gan RPW yn cau'r ffenest yn awtomatig os caiff ei gadael yn segur am gyfnod rhy hir, felly cofiwch 'arbed' eich gwaith wrth i chi fynd ymlaen.

[Yn ôl at y Cynnwys](#)

Ffermio Bro – Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig – Dechrau arni

Ar ôl i chi ddarllen [canllawiau](#) Ffermio Bro – Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig , i ddechrau eich cais, cliciwch ar y botwm **Dechrau'**



Mae'r dudalen hon yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ichi cyn dechrau ar y cais. Mae dolen ynddi i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid, ynghyd â'ch Manylion Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein sydd gennym ar eich cyfer. Darllenwch nhw, a'u newid cyn dechrau ar eich cais os ydynt yn anghywir.

Os ydych chi'n cyflwyno ceisiadau ar gyfer cwsmeriaid lluosog, bydd cwmpflen lle gallwch ddewis cais prosiect pa gwsmer rydych chi am ei ddewis a'i ddatblygu.

RPW Ar-Lein Online
Rural Payments Wales

- Yn edrych ar CRN: (Newid Cwsmer) English | Allgofnodi

Hafan Manylion y CRN Tir Gohebiaeth Ffurflenni Contractau a Grantiau Bach Cynlluniau Coetir

Dechrau Cais dechrau cais neu hawliad

Rydych wedi gofyn i gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Ffermio Bro**. Dewiswch un o'r canlynol i ddechrau'r cais.

Dewiswch os gwelwch yn dda

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychgwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn 28 Mawrth 2025. Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau ei llenwi'r ffurflen cyn 28 Mawrth 2025.

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Ffermio Bro** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydym nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

[Manylion y Cwsmer](#)
Erw Masnachu
Cyfeiriad

[Dewisiadau Ar-lein](#)
E-bost ynte neges destun (SMS)
Cyfeiriad e-bost
Rhif ffôn symudol

Cód Post
Rhif Ffôn
Cyfeiriad e-bost
Nifer y Partneriaid

Dechrau Canfio

Ffermio Bro – Cyflwyniad a thudalen hysbysiad preifatrwydd

Ar ôl i chi ddewis y botwm 'Dechrau', byddwch yn cael eich tywys i'r dudalen Cyflwyniad ac yna at y dudalen hysbysiad preifatrwydd. Fe welwch nifer o ddolenni i fynd â chi at wybodaeth a chanllawiau ychwanegol y dylech gymryd yr amser i'w darllen cyn llenwi'r cais hwn. Dylech bob amser sicrhau eich bod yn deall y wybodaeth ar y tudalennau hyn yn llawn cyn parhau.

Ar ochr chwith eich sgrin mae gwahanol rannau'r ffurflen yn cael eu harddangos. Mae croes goch yn dangos naill ai nad ydych wedi agor yr adran eto neu eich bod wedi gwneud camgymeriad yn yr adran/adrannau. Bydd tic gwyrdd yn dangos eich bod wedi llenwi'r adran ac nad ydym yn gallu gweld unrhyw gamgymeriadau.

Ffermio Bro Cyflwyniad

Ffermio Bro: Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig



Mae ein Tirweddau Dynodedig (Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol) yn arbennig ac yn unigryw ac mae angen gofalu amdanynt, eu gwella a'u hamddiffyn. Yr un pryd, mae angen cefnogi'r ffermwyr a'r cymunedau sy'n gweithio ynddyn nhw. Bydd rhaglen Ffermio Bro: Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig (y rhaglen) yn buddsoddi arian ychwanegol yn yr ardaloedd hyn er mwyn i ffermwyr allu gweithio mewn partneriaeth â'r cyrff rheoli Tirweddau Dynodedig i sicrhau canlyniadau gwell er lles yr amgylchedd a chymunedau.

Ffermwyr fydd yn rhoi'r rhaglen ar waith, ar y cyd â chyrff rheoli'r Tirweddau Dynodedig. Y cyrff hyn a'r ffermwyr sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardaloedd hyn sy'n deall orau y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu eu tirweddau a'u cymunedau. Dyma gyfle i gyrrff y Tirweddau Dynodedig, ffermwyr ac eraill weithio'n well â'i gilydd, gan gryfhau'r berthynas rhyngddynt.

Bydd y rhaglen yn gweithio ar sail prosiectau, o'r gwaelod i fyny. Hynny yw, defnyddir y grant i gynnal prosiectau fydd yn cael eu cynnig gan ffermwyr neu glystyrau o ffermwyr a'u cymeradwyo gan Baneli Aseu Lleoli i gefnogi blaenoriaethau lleoli y Tirweddau Dynodedig. Bydd y rhan fwyaf o'r arian yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgareddau'r rhaglen trwy brosiectau cyfalaf ar draws nifer o ffermydd, gyda chymorth a chyngor technegol cysylltiedig.

Rhaglen cyfnod penodol (2024-27) yw hon, i fuddsoddi arian ychwanegol yn ein lleoedd mwyaf arbennig. Bydd yn gweithio ochr yn ochr â chynlluniau eraill, nid mewn cystadleuaeth â nhw, gan ychwanegu gwerth lle mae angen hynny fwyaf, os oes modd cynnal gweithgaredd trwy gynllun sy'n bod eisoes, dylid gwneud hynny. Bydd y rhaglen yn integreiddio'r cymhellion ar gyfer annog arferion ffermio positif â phwrpas y Tirweddau Dynodedig. Bydd yn golygu prosiectau cydweithredol rhwng nifer o ffermydd er lles yr amgylchedd, i adfer natur a lliniaru effeithau'r hinsawdd. Bydd y prosiectau hyn yn rhoi cyfle i bobl ddoed i nabod, mwynhau a deall y tirweddau gan gynnwys eu treftadaeth ddiwyllianol.

Bydd amrywiaeth eang o brosiectau'n gynnwys am y grant cyn belled â'u bod yn cefnogi blaenoriaethau cynllun rheoli corff y Tirwedd Dynodedig. Bydd rheolau'r Rhaglen yn gyson â rhai'r SFS (h.y. rhag ariannu'r un peth ddwywaith a / neu ariannu gweithred gyffredinol). Bydd y rhaglen yn cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i reoli 30% o'n tir er lles natur erbyn 2030 (30x30) a blaenoriaethau eraill.

Bydd cyrff y Tirweddau Dynodedig yn gyfrifol am weinyddu'r grant fydd wedi'i neilltuo iddynt, monitro'r prosiectau a gymeradwyir a'u canlyniadau a rheoli taliadau i ffermwyr ac os oes trefniadau wedi'u gwneud iddynt wneud hynny, gallent wneud y gwaith hwn ar ran cyrff Tirweddau Dynodedig eraill hefyd.

Printio English

Os ydych am newid iaith rhwng Cymraeg a Saesneg, mae botwm ichi yng nghornel chwith isaf y sgrin, fel y gwelwch ar y sgrinlun isod:

Ffermio Bro Hysbysiad Preifatrwydd

Hysbysiad Preifatrwydd: grantiau Llywodraeth Cymru

Sut y byddwn yn ymddrin ag unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrywiaeth o gynlluniau grant er mwyn helpu i roi'n polisiau ar waith a chreu Cymru decach, fwy ffyniannus.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant. Bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n gorchwyl gyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) ac yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys i gael grant.

Cyn i ni roi grant i chi, byddwn yn cynnal archwiliadau er mwyn atal twyll ac atal gwyngalchu arian, ac i ddilysu eich manylion adnabod. Fel rhan o'r archwiliadau hyn, bydd gofyn i ni rannu data personol amdanoch chi ag asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaeth atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o ran twyll neu wyngalchu arian, gallwn wrthod rhoi'r grant y gwnaethoch gais amdano, neu gallwn stopio'r grant rydych chi eisoes yn ei gael.

Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw cofnod o unrhyw risg o dwyll neu wyngalchu arian, a gallai hyn arwain at eraill yn gwrthod darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth ichi.

Er mwyn asesu a ydych yn gymwys efallai y bydd angen inni helpu rannu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'ch cais ag awdurdodau rheoleiddio, fel Cyllid a Thollau ei Fawrhydi, Awdurdodau Lleoli, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Heddlu.

Mae'n bosibl y bydd aelod arall o'r cyhoedd yn gofyn am gael eich gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol. Wrth ymateb i geisiadau o'r fath, efallai y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, er mwyn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Diogelu Data 2018 neu Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (ymadael) 2018.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi manylion y symiau a delir i'r rheini sy'n derbyn Cymorth Gwledig. Caiff data pawb sy'n derbyn cymorth ei gyhoeddi, a bydd yn cynnwys enw a lleoliad y ffermwr / rheolwr tir a manylion symiau a chynlluniau'r cymhorthdal a dalwyd. Ond ni chyhoeddir enw'r sawl sy'n derbyn llai na'r hyn sy'n cyfateb i £1,250 o gymhorthdal. Caiff y data ei gyhoeddi bob blwyddyn ar 31 Mai a bydd ar gael am ddwy flynedd o'r dyddiad y cafodd ei


Printio English

[Yn ôl at y Cynnwys](#)

Ffermio Bro – Parhau â'r Cais/Dechrau Eto

Pan fyddwch wedi dechrau ar eich cais, gallwch ddewis ei adael a dod yn ôl ato yn nes ymlaen.

Os ydych yn dod yn ôl at gais rydych eisoes wedi dechrau ei lenwi, cliciwch ar Parhau ar y sgrin hon, neu os ydych am ddechrau eto, cliciwch ar y botwm Dechrau Eto a welwch ar y sgrinlun hwn:



The screenshot shows the RPW Ar-Lein Online portal. The header includes the RPW logo and 'Ar-Lein Online' text. The main heading is 'Parhau â Chais parhau â chais neu hawliad'. The text explains that users can pause or restart their case. A red box highlights the 'Dechrau Eto' button. The page also lists contact information for various services and a footer with 'Parhau' and 'Yn ôl' buttons.

Os ydych yn cyflwyno cais Ffermio Bro dros fwy nag un buddiolwr, fe welwch y dudalen isod lle gallwch ddewis pa gais yr hoffech ei 'dechrau' a/neu 'parhau'.

Yn edrych ar CRN: (Newid Cwsmer) English | Allgofnodi

Hafan Manylion y CRN Tir Gohebiaeth 2 Ffurflenni Contractau a Grantiau Bach Cynlluniau Coetir

Dewiswch Gais dewis cais neu hawliad

Math o Gais
Ffermio Bro

Ceisiadau drafft
Mae gennych y Ceisiadau Drafft canlynol:

Enw'r Cais	Diweddardwyd ddiwethaf	Diweddardwyd gan
Parhau â Chais		

Ceisiadau sydd ar Gael
Cliciwch 'Dechrau Cais Newydd' os ydych am ddechrau un o'r ceisiadau canlynol sydd ar gael i chi:

Enw'r Cais

[Dechrau Cais Newydd](#) [Yn ôl](#)

Cofiwch – os byddwch yn dewis Dechrau Eto, bydd hyn yn ailosod yr holl gwestiynau yr ydych wedi eu hateb, a bydd yn cael gwared ar yr holl wybodaeth rydych wedi'i rhoi.

Yn edrych ar CRN: (Newid Cwsmer) English | Allgofnodi

Hafan Manylion y CRN Tir Gohebiaeth 2 Ffurflenni Contractau a Grantiau Bach Cynlluniau Coetir

Ffermio Bro - Dileu / Dechrau Eto

Bydd yr opsiwn hwn yn dileu'ch cais **Ffermio Bro** - ac yn dadwneud yr **HOLL** newidiadau rydych wedi'u gwneud ers dechrau'ch **Ffermio Bro** -

Bydd hyn yn:

- dileu'r holl wybodaeth rydych wedi'i hychwanegu
- ailosod yr holl gwestiynau yr ydych wedi'u hateb

Pan gaiff y **Ffermio Bro** - hwn ei dileu, gallwch ddechrau **Ffermio Bro** - , newydd. Caiff ei llenwi â'r data diweddaraf.

A ydych am fwrw ymlaen â'r opsiwn hwn?

Cliciwch 'Ydw' i gadarnhau'ch bod am ddileu'ch **Ffermio Bro** - a dechrau eto. [Ydw](#)

Cliciwch 'Na' i gadw'r hyn rydych wedi'i roi ar eich **Ffermio Bro** - a dychwelyd i'r sgrin flaenorol. [Na](#)

[Yn ôl at y Cynnwys](#)

Ffermio Bro – Manylion Rheoli Rhaglen

Yn yr adran hon rhaid ichi ddarparu manylion cyswllt ar gyfer **prif gyswllt** y prosiect Ffermio Bro.

Rhaid ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon. Pan ofynnir am fanylion ysgrifenedig, rhowch gymaint o fanylion â phosibl o fewn y terfyn o 4000 o nodau ar gyfer pob cwestiwn. Cyn nodi'r wybodaeth, sicrhewch eich bod wedi darllen [canllawiau Rheolau Cyffredinol](#) Ffermio Bro.


The screenshot shows the 'Manylion Rheoli'r Rhaglen' (Plan Control Details) form. The left sidebar contains a navigation menu with 'Rheoli'r Rhaglen' selected. The main content area has a title 'Manylion Rheoli'r Rhaglen' and a sub-header 'Manylion Cyswllt'. Below this, there are several input fields: 'Pwy yw'r prif gyswllt ar gyfer y prosiect hwn?*', 'Rhif Ffôn*', 'Cyfeiriad e-bost*', and 'Cadarnhewch y cyfeiriad e-bost*'. A light blue informational box at the bottom states: 'Disgrifwch sut y bydd Ffermio Bro yn cael ei reoli'n effeithiol yn eich tirwedd. Er enghraifft: trefniadau staffio a rheoli ychwanegol, trefniadau asesu, hyfforddi a hyrwyddo.'

The screenshot shows the 'Rhowch fanylion*' (Provide details) form. The left sidebar is the same as in the previous screenshot. The main content area has a large text input field for providing details. Below the field, a light blue informational box states: 'Mae cydweithio'n ganolog i'r rhaglen hon ac un o'i phrif amcanion fydd ategu'n effeithiol Haen Gydweithredol yr SGS. Mae'n bosib y bydd llawer o'r gweithgareddau y byddwn am eu hariannu trwy'r rhaglen hon yn gallu cael eu hariannu ar lefel y fferm unigol trwy'r cynllun cyffredinol neu drwy drefn ariannu arall wedi'i thargedu. Ond prif amcan y rhaglen hon yw cael ffermwyr i gydweithio â'i gilydd, fel rhan o glwstwr, partneriaeth anffurfiol neu fel rhan o brosiect cydweithredol sydd eisoes yn bod yn y tirwedd, fel grŵp rheoli dalgrych afon. Disgrifwch sut y byddwch yn hybu cydweithio yn y Tirwedd Dynodedig a sut y byddwch yn sicrhau bod prosiectau cydweithredol cryf yn cael eu datblygu.'

Ar ôl cwblhau'r wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**. Os nad ydych wedi ateb cwestiwn, ni chaniateir i chi barhau a bydd y blwch testun â data coll yn cael ei amlygu'n goch.

Ffermio Bro – Manylion y Cyd-destun Strategol

Rhaid ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon. Pan ofynnir am fanylion ysgrifenedig, rhowch gymaint o fanylion â phosibl o fewn y terfyn o 4000 o nodau ar gyfer pob cwestiwn. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen [canllawiau Rheolau Cyffredinol](#) Ffermio Bro.



Ar ôl cwblhau'r wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**. Os nad ydych wedi ateb cwestiwn, ni chaniateir i chi barhau a bydd y blwch testun â data coll yn cael ei amlygu'n goch.

[Yn ôl at y Cynnwys](#)

Ffermio Bro – Ymgorffori manylion bioamrywiaeth

Mae'r dudalen hon yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddewis naill ai 'Oes' neu 'Nac oes' i'r cwestiwn a ofynnir cyn rhoi manylion ysgrifenedig yn ôl y gofyn. Rhwch gymaint o fanylion â phosibl o fewn y terfyn nodau o 4000. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen [canllawiau Rheolau Cyffredinol](#) Ffermio Bro.

The screenshot shows the 'Ymgorffori Bioamrywiaeth' form. The left sidebar contains a navigation menu with items like 'Cyflwyniad', 'Hystbysiad Preifatrwydd', 'Rheoli'r Rhaglen', 'Cyd-destun Strategol', 'Ymgorffori Bioamrywiaeth', 'Gwerth am Arian', 'Gwerth y Grant Mwyaf', and 'Crynodeb'. The main content area has a title 'Manylion Ymgorffori Bioamrywiaeth' and a sub-header 'Rhaid ateb cwestiynau wedi'u marcio â *'. Below this, there are two radio buttons: 'Oedd' and 'Nac Oedd'. The main text area contains the following text: 'Mae canllaw Cynllun Rheoli CNC yn dweud: Er mwyn sicrhau 30x30, bydd angen i Dirweddau Dynodedig baratoi a rhoi ar waith gynlluniau gweithredu dros natur a'u hymgorffori mewn cynlluniau rheoli. A oes gennych gynllun gweithredu dros natur yn eich Tirwedd Dynodedig ar gyfer targedu gweithgarwch ar lawr gwlad?*' and 'Os oes, disgrifiwch sut y bydd y cynllun yn effeithio ar sut y bydd Ffermio Bro yn gweithio yn eich tirwedd. Os nac oes, esboniwrch sut y byddwch yn targedu gweithgarwch yn eich tirwedd ar sail tystiolaeth?*' There is a large text input area below this, currently empty, with a character count '0 / 4000' at the bottom right.

Ar ôl darllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**. Os nad ydych wedi ateb cwestiwn, ni chaniateir i chi barhau a bydd y blwch testun â data coll yn cael ei amlygu'n goch.

Ffermio Bro – Gwerth am Arian

Yn yr adran hon bydd gofyn i chi roi esboniad o'r ffordd y byddwch yn sicrhau y bydd costau'r prosiect yn rhesymol ac yn briodol a sut y bydd gwerth am arian yn cael ei ymgorffori yn eich rhaglen. Rhwch gymaint o fanylion â phosibl o fewn y terfyn o 4000 o nodau. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen [canllawiau Rheolau Cyffredinol](#) Ffermio Bro.

The screenshot shows the 'Gwerth am Arian' form. The left sidebar is similar to the previous screenshot, but 'Gwerth am Arian' is selected. The main content area has a title 'Manylion Gwerth am Arian' and a sub-header 'Rhaid ateb cwestiynau wedi'u marcio â *'. Below this, there is a light blue box containing the text: 'Esboniwrch sut y byddwch yn sicrhau bod costau'r prosiect yn rhesymol a phriodol, a sut y bydd sicrhau gwerth am arian yn rhan annatod o'ch rhaglen. Disgrifiwch hefyd sut y byddwch yn sicrhau bod trefniadau caffael y cyrff perthnasol yn cael eu dilyn.' Below this, there is a section 'Rowch fanylion*' followed by a large text input area, currently empty, with a character count '0 / 4000' at the bottom right.

Ar ôl darllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**. Os nad ydych wedi ateb cwestiwn, ni chaniateir i chi barhau a bydd y blwch testun â data coll yn cael ei amlygu'n goch.

Ffermio Bro – Uchafswm Gwerth y Grant


Yn yr adran hon, mae'r blwch 'Uchafswm Gwerth y Grant' eisoes wedi'i boblogi ymlaen llaw i ddangos cyfanswm gwerth eich grant y cytunwyd arno. Mae hyn yn cynnwys eich prosiectau 'Cyfalaf' a chostau 'Refeniw'.

[Yn ôl at y Cynnwys](#)

Ffermio Bro – Cyflwyno, Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r eitemau yr ydych wedi'u dewis ac yn dweud wrthy ch am unrhyw wallau neu negeseuon gwybodaeth ar eich cais.

Sicrhewch eich bod wedi prawf ddarllen yr holl atebion a ddarperir yn eich cais cyfan cyn symud ymlaen i'r cam nesaf.




Pan fyddwch wedi gwirio'r crynodeb a chywirow unrhyw gamgymeriadau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.

[Yn ôl at y Cynnwys](#)

Ffermio Bro – Datganiad ac Ymrwymiadau

Mae'n rhaid ichi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a thicio'r blwch i gadarnhau eich bod wedi'u darllen a'ch bod yn cytuno â nhw.



Ar ôl ichi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a chytuno â nhw, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.

[Yn ôl at y Cynnwys](#)

Ffermio Bro – Tudalen Gyflwyno - Cyflwyno

I gyflwyno'ch cais Ffermio Bro – Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig, cliciwch ar y botwm **Cyflwyno** .



Ar ôl Cyflwyno'r Ffurflen yn Llwyddiannus

Bydd crynodeb o'ch Ffurflen Gais Ffermio Bro – Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig yn cael ei hychwanegu at dudalen 'Negeseuon' eich cyfrif RPW Ar-lein dan y pennawd "Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru". Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r wybodaeth a gyflwynwyd yn drylwyr. Os oes unrhyw wybodaeth yn anghywir, anfonwch ateb i'r neges yn rhoi manylion ynghylch eich pryderon. Dylech wneud hyn cyn gynted ag sydd modd ar ôl dod o hyd i wybodaeth anghywir.

Os ydych yn cael trafferthion neu os nad ydych yn gallu cysylltu â'n gwefan, ffoniwch Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

[Yn ôl at y Cynnwys](#)